

## **Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 1af Chwefror 2022**

**Croeso ac Ymddiheuriad** - Rhoddwyd Croeso gan y Cadeirydd, Emma Chappell a gair o weddi gan Richard Ll. Jones

**Presennol** - Cadeirydd Emma Chappell ynghyd a'r Cynghorwyr, Elfed Wyn Williams, R Hefin Williams, Richard Ll Jones, Ynyr Parri, Phyllis Ellis. Sasha Williams. Rhian Evans-Hil. Gareth Griffiths a Jane Pierce. Croesawyd Y Cynghorydd Elwyn Jones

**Ymddiheuriadau** - Lowri Hughes, Idris Thomas, Dawn Parry a Ceri Jones.

**Datgan Buddiant** - Dim

### **Cofnodion 11eg Ionawr 2022**

Cafwyd y Cofnodion yn gywir:

Elfed Wyn Williams (1)

Richard Ll. Jones (2)

### **Materion o'r Cofnodion**

**Gwelliannau I Lwybrau Cyhoeddus** - Yn ystod y mis. Trefnwyd I gyfarfod swyddogion o'r adran yng Nghyngor Gwynedd ar Ionawr 31, gan gerdded rhai llwybrau a nodwyd oedd angen gwaith.

#### **Hysbysfyrdau**

Dafydd Williams wedi cytuno i osod yr hysbysfyrdau, pan fyddant wedi cyrraedd.

#### **Map Enwogion yr ardal**

Cafwyd amcan bris gan Gareth Roberts. Bu trafodaeth, ac roedd teimlad positif i roi ar waith gan obeithio unwaith bydd y mapiau wedi eu cynllunio, bydd posib i'r ysgolion weithio ar hanes lleol, grwpiau lleol ac efallai bydd Gareth yn trefnu teithiau cerdded, bydd hyn i gyd yn sicr yn rhoi pwrpas da iddynt. Penderfynwyd trefnu is-bwyllgor i gyfarfod ac ef, cyn y cyfarfod nesaf. Bydd Phyllis Ellis, Hefin Williams, Sasha Williams ac Emma Chappell yn ffurfio'r is bwyllgor.

**Cysgodfa'n Bws Brynrefail** - Bu I Ynyr holi ynglŷn â chysgodfa'n bren fel sydd yn Felinheli. Gobeithio derbyn amcan bris er mwyn rhoi cysgodfa'n Newydd yno.

### **Gohebiaeth a Materion Eraill**

#### **Biniau Halen**

Derbyniwyd llythyr o Gyngor Gwynedd yn datgan na fu rhaid i ni drefnu llenwi'r biniau halen mwyach. Mae'r adran wedi cymryd y cyfrifoldeb yn ôl, ac felly, cysylltu â Chyngor Gwynedd yn syth bu angen os oes angen llenwi bin halen yn ystod y gaeaf

## Cynllunio

C22/0083/18/DT - Ty'n Y Gadlas, Pentir - Cais ar gyfer codi estyniad deulawr i'r eiddo.

C22/0069/18/LL T Cefn, Lôn Rhiwlas. - Cais ar gyfer codi tŷ deulawr.

C22/0066/18/AC Bryn Difyr, Bethel - Cais I ddiwygio amod 2 o ganiatâd cynllunio

## Llwybrau

Yn dilyn cyfarfod a'r swyddogion o Gyngor Gwynedd, dyma'r adroddiadau a ddaeth gan y cynghorwyr. Byddwn yn cael ymateb yn fuan gan yr adran yng Nghyngor Gwynedd.

Llwybr 74, Carreg y Gath.

Cychwyn o flaen Tŷ Carreg y Gath a mynd trwy'r llwybr i gyd. Mae yna waith ar giatiau a phroblem dŵr, efallai fod posib tyllu yn fan honno yn dilyn siarad gyda'r tîrfeddiannwyr. Mae yna sawl giât a thamaid o lwybr oedd ddim are u map diffiniol Y Cyngor. Gwelwyd ail lwybr cwrteisi yn Gwynfryn, ac angen nodi'r llwybr yn fab honno.

Unrhyw un sydd yn cerdded ar lwybr cwrteisi, ac yn brifo, yna mae dyletswydd yn gorffen gyda'r tîrfeddiannwr. Mae posib fod y swyddogion wedi cerdded ambell lwybr eu hunain yn yr ardal hefyd.

Ardal Bethel

Cerddwyd 4 llwybr yn gyfanswm. Cychwynwyd ger Cefn Gwyn. Mae problemau, ac yn aml yn gweld y bai ar y ffermwyr. Mae angen gwybodaeth ar y draeniau ganddynt a dŵr ydi problem sawl llwybr.

Yna Llwybr Tŷ Cefn I Gae Pêl droed Bethel trwy Gefn Gwyn, a llwybr I Gae Meta a llall I Eglwys Llanddeiniolen. Awgrymwyd fod dipyn o broblem gydag anifeiliaid yn crwydro lle oedd dipyn o

Dyfiant - yn lle bod y tyfiant yn cael ei dorri. Gofynnwyd am adroddiad ysgrifenedig ar y llwybrau penodol lle mae Gwaith.

Ar ôl lôn Pistyll mae 2 goeden a wal wedi disgyn. Mae'r tîrfeddiannwr wedi rhoi weiren bigog ar ochor tu mewn i'r llwybr. Gofynnwyd I bwyntio allan beth oedd cyfrifoldeb y tîrfeddiannwr, a ninnau fel Cyngor, a sut fuasai'r ddau gyngor yn gallu cydweithio er mwyn symud ymlaen.

Tyddyn Gwndwn - Mae'r cae cyntaf yn berffaith, ond mae'r ail gae a cherrig o gwmpas y giât - ac mae'r wal wedi disgyn, ac roedd yn berig.

Nodwyd yn y ddau bentref, fod y swyddogion yn hoffi'r ffaith fod y llwybrau yn arwain i lwybrau mewn cymuned arall. Mi dynnwyd sylw'r tri at Glwb Cerdded Bethel. Mae'r clwb yn ceisio gweld patrymau fel bod yn gylch gerdded neu gynllun o lwybrau sydd yn cael eu cerdded ac mae heini'r llwybrau i bwrpas yma.

Roedd Elwyn wedi cael rhestr o lwybrau lle oedd diffygion gan gerddwyd yn ardal Penisa'r-waun I ychwanegu at Lwybr Tros y Waun a Giât y llwybr cefn yr Eglwys.

Diolch i bawb a fu'n cerdded, ac i gael; cychwyn ar y llwybrau.

### **O Gwmpas y Bwrdd**

Penisa'r-waun- Bin Halen ger Wenoldy wedi diflannu. Cais I ail osod un Newydd/

Coed Gôr dyfiant Tan y Gaer

Arwydd Penisa'r-waun o Raca.

Rhiwlas - Angen cysylltu â holi am doriadau llwybrau Rhiwlas

Mae pryder fod yna ddim siop mewn 3 pentref yn yr ardal, a bod gwasanaethau'r pentrefi yn dirywio.

Mae Sash wedi bod yn cydweithio gydag Angharad Owen ynglŷn â chreu ardal i blannu blodau gwyllt i helpu'r amgylchedd. Mae cynllun ar dro, ac yn siarad gydag Adra i weld lle mae posib gwneud hyn mewn llecynnau yn yr ardal. Bydd holiadur yn cael eu rhoi allan yn fuan, gan annog pawb i ymateb.

Un syniad ddaeth ynglŷn â gwella llwybrau oedd bod yna gynllun lle mae pobl ifanc yn gallu helpu gan gofrestru am, wobr Dug Caeredin am eu hamser.

### **Cadarnhau Taliadau:**

Dim

Bydd Cyfarfod nesaf ar y 1af Fawrth